Dod o hyd i nawdd...

Gall dod o hyd i nawdd ar gyfer eich ymgyrch Tref Masnach Deg ymddangos fel tasg amhosib, heb sôn am gymryd llawer o amser. Serch hynny, nid yw o reidrwydd mor wael ag y mae'n ymddangos. Mae tipyn o grantiau bychain ar gael nad ydynt yn gofyn am fwy na chais un dudalen, ond a fedrai eich cynorthwyo i wireddu eich syniadau gwych.
Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi syniad ble i edrych am nawdd a syniadau eraill am ffyrdd o godi arian. Dilynwch y cysylltiadau i gael gwybodaeth fanylach.

Gallwch ymgeisio am nawdd ar gyfer..

- Digwyddiadau
- Costau cynnal
- Datblygu gwirfoddoli
- Costau offer (argraffwyr, cyfrifiaduron ayyb)
- Cyrsiau hyfforddi
- Adnoddau

Edrych am Nawdd

Yn gyntaf dylid mynd at eich biwro gwirfoddoli lleol. Yn gyffredinol byddant yn medru cynnig gwybodaeth, cefnogaeth ac arweiniad i grwpiau cymunedol sy'n edrych am arian. Yn fwyaf pwysig, bydd ganddynt fel rheol restr o arian lleol y gallwch droi ato.

I ddod o hyd i'r cyngor gwirfoddoli ar gyfer eich ardal, cliciwch yma http://www.sustainablefundingcymru.org.uk/help/cvcs

Hefyd mae nifer o wefannau lle gallwch chwilio am nawdd sy'n cyfateb i'ch anghenion arbennig:

www.j4b.co.uk
Chwilotwr rhad ac am ddim yn ymchwilio i dros 4,500 o raglenni ariannol, yn cael ei ddiweddaru'n ddyddiol.

www.grantnet.com
Ceir rhestr o grantiau teilwredig drwy ofyn rhai cwestiynau syml am y math o weithgaredd yr ydych yn dymuno ei gyflawni a'r math o arian sydd ei angen.

www.lotteryfunding.org.uk/cymru/uk
Chwilio am wybodaeth am raglenni ariannu cyfredol yn y DU.

www.funderfinder.org.uk
Rhestr o gannoedd o ymddiriedolaethau elusennol yn y DU (yn anffodus, nid oes modd chwilio drwy ddefnyddio meini prawf)

Rhai syniadau...

Mae rhai cynlluniau sydd wedi'u cynllunio i roi grantiau bychain i fudiadau cymunedol. Edrychwch ar

Arian i Bawb – grantiau rhwng £500 a £5000 ar gyfer grwpiau lleol, wedi'u dyfarnu drwy gydol y flwyddyn. Mae'r ffurflen gais yn fyr ac yn syml ac fe fyddwch yn clywed os ydych yn llwyddiannus o fewn 12 wythnos. I ymgeisio neu am fwy o wybodaeth ewch at http://www.awardsforall.org.uk/cymru/index.html

Cronfa Gymunedol y Co-operative – grantiau rhwng £100 a £5000 ar gyfer grwpiau lleol yn gweithio at ddibenion elusennol. Am fwy o wybodaeth neu i ymgeisio ewch at http://www.co-operative.coop/membership/Community-Fund/

Sut i lunio cais am grant

Y peth pwysicaf yw sicrhau bod eich grŵp Masnach Deg wedi'i sefydlu'n gywir gyda chyfansoddiad a chyfrif banc. Yna cadarnhewch fod eich cais yn ateb meini prawf yr ariannwr. Wedi cadarnhau hyn, gallwch ddod o hyd i gyfoeth o wybodaeth ar y we am sut i ysgrifennu cais da am nawdd.

Mae gan wefan Cyllid Cynaliadwy Cymru lawer o daflenni gwybodaeth a manylion sut i ysgrifennu cais llwyddiannus. Cliciwch ar y cysylltiadau isod am fwy o wybodaeth:

- Cynllunio a pharatoi – sicrhau bod y sylfaen yn iawn
- Dewis ariannwr grant
- Beth mae arianwyr ei eisiau
- Cwblhau argymhellion a cheisiadau
- Cyflawni prosiect wedi'i ariannu gan grant
- Arian grant – tuag at gynaladwyedd

Ffynonellau arian eraill

Mae nifer o ffyrdd eraill o wneud arian ar gyfer y grŵp, yn ogystal ag ymgeisio am grantiau:

1. Codi arian – os fyddwch yn cynnal sioe ffasiynau, codwch dâl am docynnau a pheidiwch ag ofni gwneud elw! Cyn belled ag y bo eich digwyddiad wedi'i drefnu'n dda a bod pobl yn mwynhau, fe fyddant yn ddigon parod i dalu. Mewn gwirionedd, mae'n ffordd o sicrhau presenoldeb pobl sydd wedi addo dod, gan eu bod wedi talu am eu tocynnau!

Syniadau codi arian cymunedol:

- Ffair Masnach Deg (codwch dâl am fynediad ac am luniaeth)
- Brecwast/ Bore Coffi Masnach Deg
- Noson caws lleol a gwin Masnach Deg
- Sioe Ffasiwn
- Picnic Mawr Masnach Deg
- Raffl gyda gwobrau wedi'u cyfrannu gan fusnesau lleol
- Pryd bwyd Masnach Deg (gofynnwch i fwyty lleol cefnogol greu bwydlen am bris penodol ac ychwanegwch £5 y person fel cyfraniad i'r grŵp)

2. Sicrhewch gefnogaeth busnesau lleol – gall hyn fod naill ai yn ariannol neu mewn da. Mae busnesau lleol yn aml yn barod i gefnogi mentrau lleol drwy noddi digwyddiadau lleol, rhoi gwobrau neu gynnig eu gwasanaethau am ddim (costau argraffu, llogi lleoliad). Yn gyffredinol bydd modd i reolwr archfarchnad leol roi nwyddau mewn da hyd at £50 i gefnogi digwyddiadau lleol.

Wrth fynd at fusnesau lleol, mae angen ystyried yn gyntaf pwy fyddai'r person cyswllt gorau – efallai'r rheolwr os yw'n fusnes mwy neu'r perchennog os yw'n fusnes llai. Gallech roi galwad iddynt er mwyn trafod eich argymhellion yn anffurfiol ac yna anfon llythyr yn amlinellu'ch cynnig – gan gynnwys manylion am bwysigrwydd Masnach Deg a chynllun Tref Masnach Deg a'r ffordd y byddai eu cymorth yn gwneud gwahaniaeth.

Gall sicrhau nawdd ar gyfer eich ymgyrch wneud gwahaniaeth mawr, a rhoi'r offer angenrheidiol i chi wireddu'ch syniadau. Am fwy o gyngor am nawdd ewch at: www.sustainablefundingcymru.org.uk

Pob lwc!

Cymru Masnach Deg
Fair Trade Wales

Finding funding...

Finding funding for your Fairtrade Town campaign can seem like a bit of an impossible, not to mention time consuming, task. However it isn't always as bad as it seems. There are quite a few mini grants available that don't require more than a page long application but would help turn your brilliant ideas into action. This factsheet will provide an overview of where to look for funding and other money making ideas. Follow the links to get more detailed information.

You can apply for funding for..

- Events
- Running costs
- Developing volunteering
- Equipment costs (printers, computers etc)
- Training courses
- Resources

Looking for Funding

First stop should be your local voluntary bureau. In general they will be able to offer information, support and guidance to community groups looking for money for their group. Most importantly they will usually have a list of local pots of money for you to access.

To find the Voluntary council for your area click here
http://www.sustainablefundingcymru.org.uk/help/cvcs

There are also a number of websites where you can search for funding that matches your particular needs:

www.j4b.co.uk
A free search engine of over 4,500 financial programs researched with daily updates.

www.grantnet.com
Will give a list of tailored grants by asking a few simple questions about the activity you wish to undertake and the type of funding required

www.lotteryfunding.org.uk
Search for information on current UK funding programs

www.funderfinder.org.uk
A list of hundreds of charitable trusts in the UK (unfortunately not searchable by criteria)

A couple of ideas...

There are a couple of schemes that are designed to give mini grants to community organisations. Have a look at

Awards for All – grants from £500 to £5000 for local groups, awarded throughout the year. The application form is short and simple and you will be told if you have been successful within 12 weeks. To apply or find out more visit
http://www.awardsforall.org.uk/wales/index.html

The Co-operative Community Fund – grants from £100 to £5000 for local groups working for charitable purposes. For more information or to apply visit http://www.co-operative.coop/membership/Community-Fund/

Cymru Masnach Deg
Fair Trade Wales

How to write a grant

The most important thing is to make sure that your Fair Trade group is set up properly with a constitution and bank account. Then check that your application meets the criteria of the funder. Once this is established then you can find a wealth of knowledge on how to write a good bid for funding on the internet.

The Sustainable Funding Cymru website has lots of factsheets and information on how to write a successful bid. Please click on the links below for more information:

- Planning and preparation – getting the basics right
- Selecting a grant funder
- What do funders want
- Completing proposals and applications
- Delivering a grant funded project
- Grant funding – towards sustainability

Other pots of money

There are lots more ways of making money for the group, beyond applying for grants:

1. Earn money- if you put on a fashion show then charge for the ticket and don't be afraid of making a profit! As long as your event is well organised and enjoyable people won't mind paying to come along. In fact often it ensures that people who said they will come along, do actually turn up, as they've paid!

Ideas for community fundraising ideas:

- Fair Trade Fair (charge a small entrance fee and make money on refreshments)
- Fairtrade breakfasts/ Coffee mornings
- Fairtrade wine and local cheese evening
- Fashion shows
- The Big Fairtrade Picnic
- Raffles with donated prizes from local businesses
- Fairtrade evening meal (ask a local supportive restaurant to create a set price menu then add on £5 per person as a contribution to the group)

2. Enlist the support of local businesses – this can mean either financially or in kind. Local businesses often are willing to support local initiatives by sponsoring local events, giving prizes or offering their services for free (printing costs, venue hire). In general the manager of local supermarkets will be able to give goods in kind of up to £50 so support local events.

To approach local businesses, first find out the best contact person- it might be the manager if it's a larger business or the owner if it's a smaller business. You could then give them a ring to talk through your proposal informally and finally follow it up with a letter outlining your proposal- include details of why Fair Trade and the Fairtrade Town scheme is important and how their help would make a difference.

Getting some funding for your campaign can really make a big difference and gives you the tools to put ideas into action. For more advice on funding visit: www.sustainablefundingcymru.org.uk

Good luck!